Press Release: Date: Wednesday, 1 December 2004: For Immediate use.

DATGANIAD I'R WASG

SGILIAU HEINI'N MYND I'R AFAEL AG ANGHENION HYFFORDDI DE CYMRU

Mae Sgiliau Heini, Cyngor Sgiliau'r Sector Hamdden a Dysgu Egnïol, yn darparu atebion i'r anghenion hyfforddi cyflogwyr De Cymru.

Mae Sgiliau Heini wedi sefydlu 'Canolfan Dysgu' yng Ngholeg Glan Hafren – coleg mwyaf Caerdydd – ar gyfer Chwaraeon a Hamdden, Iechyd a Ffitrwydd, Maes chwarae, a'r diwydiannau Awyr Agored a Charafannau, i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau ac anghenion hyfforddi yn Ne Cymru.

Bydd y Ganolfan Dysgu'n cynnig atebion i faterion, sef; mynediad i hyfforddiant, bodloni'r galw yn lleol yn ogystal â'r materion sylfaenol o gydlynu a chysylltu.

Dywedodd Richard Tobutt, Rheolwr Rhaglenni Sgiliau Heini Cymru; "Nodwyd bod bodloni'r galw yn ofyniad o bwys i gyflogwyr Cymru.

"Bydd datblygu'r cysyniad o Ganolfan Dysgu yn y Sector yn fodd o fynd i'r afael â'r agenda sgiliau a chynhyrchu ledled Cymru."

Peilot chwe mis yw'r Ganolfan yng Ngholeg Glan Hafren, â'r nod o ddatblygu Canolfannau tebyg yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Bydd sefydlu Canolfannau Dysgu yn y dyfodol yn golygu gall busnesau bach a mentrau cymdeithasol ddod ynghyd i ddefnyddio'r cyngor a chefnogaeth bwrpasol, i fodloni eu hanghenion sgiliau a threfniadaethol .

Dywedodd Andy Evans, Rheolwr Datblygu Busnes yng Ngholeg Glan Hafren; " Rydym yn falch iawn ein bod wedi sefydlu'r project ac yn edrych ymlaen at her y dyfodol.

"Mae ymateb y cyflogwyr hyd yn hyn yn gadarnhaol iawn a hyderwn y gallwn sefydlu partneriaethau ag amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant i fodloni'r anghenion lleol."

I gael rhagor o wybodaeth am Ganolfannau Dysgu, a phrojectau eraill Sgiliau Heini yng Nghymru, cysylltwch â:

Richard Tobutt
Ffôn:029 20873970
E-bost: Richard.tobutt@skillsactive.com

I gael rhagor o wybodaeth am Sgiliau Heini cysylltwch â:

Shelly Beresford
Ffôn: 020 7632 2033

Ebost: shelly.beresford@skillsactive.com

NODIADAU I'R GOLYGYDDION

1. Mae Sgiliau Heini yn Gyngor Sgiliau y Sector (SSC) Hamdden a Chwaraeon, Maes chwarae, Iechyd a Ffitrwydd, a'r Diwydiannau Awyr Agored a Charafannau.

2. Nod Sgiliau Heini yw "sicrhau yr ansawdd, busnes a gwerth gorau o fewn y sector i gyflawni ei botensial economaidd a chymdeithasol."

3. Mae SSC yn sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr â'r nod o fynd i'r afael â'r anghenion sgiliau a chynhyrchu eu sector ledled y Deyrnas Unedig. Mae SSC yn cynnig y cyfle i gyflogwyr ddarparu arweiniad i fodloni anghenion sgiliau a busnes eu sectorau. Wedyn byddant yn derbyn buddsoddiad cyhoeddus sylweddol a mwy o ddweud ledled y Deyrnas Unedig.

4. I gael rhagor o wybodaeth am Sgiliau Heini, ewch i'n gwefan @ www.skillsactive.com